**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**
—
**Equality and Social Justice Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEquality@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEquality
0300 200 6565

Tom Franklin,
Prif Weithredwr,
Cymdeithas yr Ynadon

14 Ionawr 2026

Annwyl Tom Franklin,

Profiadau pobl o'r system cyfiawnder troseddol

Trafododd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol dystiolaeth mewn perthynas â phrofiadau o'r system cyfiawnder troseddol yn ei gyfarfod ar 15 Rhagfyr 2025.

Yn y Ffeil Ffeithiau a gyflwynwyd gan Dr. Rob Jones, fe dynnir sylw at y ffaith i nifer y menywod a remandiwyd gan lysoedd ynadon yng Nghymru gynyddu 25 y cant yn 2024. Mae'n ymddangos fod hyn yn groes i'r ymrwymiad yn y Glasbrint Cyfiawnder Menywod i feithrin hyder yn y defnydd o ddewisiadau amgen yn lle remandio.

Byddem yn ei gwerthfawrogi pe gallech ein helpu i ddeall y ffactorau sy'n dylanwadu ar y penderfyniadau remandio yng Nghymru, a'r amgylchiadau y mae dedfrydau byr o garchar—yn enwedig i fenywod—yn cael eu hystyried yn briodol. O ystyried y dystiolaeth o ganlyniadau gwael sy'n gysylltiedig â'r penderfyniadau hyn, egwyddorion allweddol neu amcanion sy'n arwain ynadon wrth wneud y penderfyniadau hyn?

Diolch ichi ymlaen llaw am roi sylw i'r cais hwn. Byddem yn gwerthfawrogi cael eich ymateb erbyn 13 Chwefror.

Yn gywir,

Jenny Rathbone AS

Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
Chair, Equality and Social Justice Committee

Senedd Cymru
Welsh Parliament